# Eglwys Teilo Sant






## Cefndir

- Agorwyd yr adeilad yn 2007 a caiff ei gyflwyno fel y gallai fod wedi edrych ym 1500-30
- Tra'n gweithio ar y safle greiddiol, death ein tîm o hyd i furluniau wedi'u cuddio dan blastr. Mae llawer o'r lluniau y gwelwch chi heddiw yn gopïau o'r murluniau hynny
- Ym 1500-30, byddai'r rhan fwyaf o'r gwasanaeth yn Lladin. Golyga hyn fod yn well gan lawer o bobl ddefnyddio'r murluniau i ddysgu am negeseuon o straeon y Beibl
- Roedd yr eglwys yn fan cyfarfod ar gyfer yr holl gymuned, a byddai ffeiriau a chwaraeon yn cael eu cynnal o gwmpas yr adeilad

Bydd y Dehonglydd Addysg yn hwyluso eich sesiwn. Gallwch ddewis sgwrs gyffredinol, neu sgwrs ar un o'r themâu isod:

**Celf a Chrefft:**
Defnyddio'r murluniau a'r cerfiadau hardd yn Eglwys Teilo Sant i ddarganfod sut oedd y Tuduriaid lliwio eu heglwysi gan ddefnyddio paent naturiol.

**Diwylliant Cymdeithasol a Bywyd y Pentre:**
Dod i ddeall pwysigrwydd yr eglwys i'r gymuned yn oes y Tuduriaid. Dysgu am y bobl oedd yn addoli yma, yn ogystal â'r ffeiriau a'r chwaraeon fyddai'n cael eu cynnal o amgylch yr eglwys.

**Crefydd a Byd-Olwg y Tuduriaid:**
Sut oedd y Tuduriaid yn edrych ar y byd o'u cwmpas? Ceisiwch ddarllen llun fel un o'r Tuduriaid, a dod i ddeall mwy am ystyr y symbolau a'r lliwiau yn Eglwys Teilo Sant.

Cofiwch sôn pan fyddwch yn archebu'r sesiwn os yr hoffech unrhyw thema arbennig i'r sgwrs.

**Cofiwch fod angen bwcio eich gweithgareddau o flaen llaw. Gallwch wneud hyn dros y ffôn ar (029) 2057 3424.**

**Rydym hefyd yn cynnal diwrnodau hyfforddi ar gyfer athrawon sydd eisiau gwybodaeth bellach am y Tuduriaid, a'r adnoddau sydd gennym i'w cynnig ar y pwnc.**

# Gwisg Tuduraidd

## Gweithgaredd



Caiff y sesiwn hwn ei hwyluso gan y Dehonglydd Addysg. Bydd disgyblion yn cymryd rhan mewn sesiwn sy'n cymharu dillad pâr priod bonheddig gyda dillad ffermwr cefnog a'i wraig. Gofynnir i bedwar disgybl wisgo dillad replica, tra bydd y disgyblion eraill yn arsylwi a gofyn cwestiynau.

**Gofynnwn i chi sicrhau bod y pedwar disgybl sydd wedi eu dewis i gymryd rhan yn y weithgaredd yn gwisgo crys-t a shorts o dan eu dillad arferol.**

Mae castell, neu dŷ mawr, wedi bodoli yn Sain Ffagan ers tua 1100. Mae'r adeilad welwch chi heddiw yn hannu o'r 1580au. Adeiladwyd y castell mewn siâp 'E', i gymeradwyo'r Frenhines Elisabeth I, oedd ar yr orsedd bryd hynny. Mae'r adeilad wedi'i gydnabod fel un o'r tai mawr mwyaf crand o gyfnod Elisabeth sydd i'w cael yng Nghymru. Mae hanes bywydau rhai o drigolion y castell yn sail ar gyfer y cymeriadau a ddefnyddir yn y sesiwn hwn.

## Gwaith Dilyniant

Ar ôl eich ymweliad, gallech astudio'r portread yn fwy manwl, neu ddefnyddio eich sgiliau newydd i ddadansoddi'r gwisgoedd mewn darluniau Tuduraidd eraill.

## Gwybodaeth

- Gwnaethpwyd y portread hwn ym 1586, ac mae'n dangos merch 3 oed a bachgen 5 oed
- Roedd y darlun yn rhan o gasgliad yr Iarll Plymouth, oedd yn byw yn y castell yn ystod yr ugeinfed ganrif.
- Ni wyddom lawer am hanes y ferch a'r bachgen. Credwn, o edrych ar eu gwisgoedd, eu bod yn dod o deulu uchel ei statws
- Mae dillad y plant yn gain iawn. Byddai gwisgo coler 'ruff' yn symbol o gyfoeth a statws yn hwyrach yn yr unfed ganrif ar bymtheg.
- Mae'r ferch fach yn gwisgo corset, sydd yn nodweddiadol o'r cyfnod
- Byddai oedolion yn disgwyl i blant wisgo, ac ymddwyn, fel oedolion bach

## Pethau i'w nodi:

- Pa mor hir fyddai'r artist wedi bod wrthi yn peintio'r darlun
- Pa mor hir fyddai'r plant wedi gorfod sefyll yn stond er mwyn i'r artist eu peintio
- Y lliwiau ddefnyddwyd gan yr artist
- Beth y gallwn ni ddysgu wrth edrych ar y gwrthrychau yn nwylo'r ferch a'r bachgen

# Hendre'r Ywydd Uchaf

***Fe'ch cynghorir i neilltuo eich lle o flaen llaw ar gyfer diwrnod HMS Bywyd yng Nghymru yng Nghyfnod y Tuduriaid.***



*Nid oes simne yn y ty hwn. Credai nifer y byddai'r mwg yn cael gwared o'r pryfetach a mân anifeiliaid a oedd yn byw yn y to ac ar eu dillad.*

## Cefndir

- Adeiladwyd y ffermdy hwn ym 1508 yn gartref i rydd-ddeiliad o ffermwr.
- Defnyddid y ddwy ardal gyntaf ar gyfer anifeiliaid a byddai'r teulu ŷn byw yn y tair ystafell nesaf.
- Mae'n esiampl o dy â ffrâm bren.
- Nid oes ganddo simne.


## GWEITHGAREDD

Mae hon yn weithgaredd dan arweiniad athro.


Gellid rhannu'r disgyblion i grwpiau a rhoi gwrthrych yr un iddynt. Bydd rhain yn cael eu darparu yn ystod eich ymweliad.

**Rhestr o wrthrychau:**


- Canhwyllbren
- Cresed
- Ffrwyn gecren
- Cnapan
- Cwpan a phêl
- Malwr bara ceirch
- Bronlliain
- Llyfr corn




**Canhwyllbren**




**Cressed**




**Ffrwyn Gecren**



**Cnapan**




**Cwpan a phêl**



**Malwr bara ceirch**



**Bronlliain**


Aabcdefghijklmnopq
rſſstuvwxyz& aeıou
ABCDEFGHIJKLMNOPQ
RSTUVWXYZ
a e i o u | a e i o u
ab eb ib ob ub | ba be bi bo bu
ac ec ic oc uc | ca ce ci co cu
ad ed id od ud | da de di do du
In the Name of the Father and of the Son, and of the Holy Ghost. Amen
OUR Father, which art in Heaven, hallowed be thy Name; thy Kingdom come, thy will be done on Earth, as it is in Heaven. Give us this Day our daily Bread; and forgive us our Treſpaſses, as we forgive them that treſpaſs against us: And lead us not into Temptation, but deliver us from Evil. Amen

**Llyfr corn**

**Pan yn trin y gwrthrychau, canolbwyntiwch ar:**

- **Nodweddion**
  Sut mae'n edrych?
  Pa liw ydyw?
  O beth mae wedi'i wneud?
  A yw'n ddeunydd naturiol neu wedi'i gynhyrchu?

- **Adeiladwaith**
  Sut gafodd ei wneud?
  A gafodd ei wneud â llaw, neu gan beiriant?
  A gafodd ei wneud mewn mowld neu mewn darnau?

- **Swyddogaeth**
  I ba bwrpas gafodd ei wneud?
  A yw ei ddefnydd wedi newid dros amser?

- **Cynllun**
  A yw wedi'i gynllunio'n dda?
  A ydych yn hoffi'i olwg?


- **Gwerth**
  Beth yw ei werth? I'r bobl a'i wnaeth / a'i ddefnyddiodd / i amgueddfa?


**GWEITHGAREDD**
Mae hon yn weithgaredd nôl yn yr ysgol.


Addurno Hendre'r Ywydd Uchaf.

Dyma dri darlun o du fewn Hendre'r Ywydd Uchaf:
**a.** Un fel ystafell wag
**b.** Un gyda'r gwrthrychau cywir ac ambell un anghywir
**c.** Un gyda'r gwrthrychau cywir o'r cyfnod

Mae hon yn weithgaredd dan arweiniad athro. Gellid ei ddefnyddio mewn sawl ffordd wahanol. Yn **narlun (a)** gall disgyblion naill ai dynnu llun o'r gwrthrychau cywir neu eu torri allan gan ddefnyddio'r patrymau a ddarperir. Gan ddefnyddio **darlun (b)** gall disgyblion adnabod y gwrthrychau dieithr. Gellid defnyddio **darlun (c)** fel cyfeirnod ar gyfer bob gweithgaredd.










# Garreg Fawr


***Fe'ch cynghorir i neilltuo eich lle o flaen llaw ar gyfer diwrnod HMS Bywyd yng Nghymru yng Nghyfnod y Tuduriaid.***



*Ystyriwyd simneau tal yn symbolau o statws yn y cyfnod Tuduraidd. Mae gan Y Garreg Fawr hefyd ddrysau trwchus iawn - mae wedi'i adeiladu yn debyg i gastell!*

## Cefndir

- Yn dŷ fferm yn wreiddiol, adeiladwyd Y Garreg Fawr ym 1544. Roedd yn gartref i ffermwr cyfoethog.
- Mae'r waliau a'r to wedi'u gwneud o garreg a llechi. Ystyriwyd rhain fel symbolau o statws yn y cyfnod Tuduraidd.
- Enw gwreiddiol y tŷ oedd Castell Crwn.
- Daeth adeiladu simneau yn boblogaidd yn y cyfnod hwn. Roeddent hefyd yn symbolau o gyfoeth. Mae gan Y Garreg Fawr ddwy simne fawr iawn.
- Mae nodweddion pensaernïol eraill yn cynnwys drws blaen a chefn sydd yn union gyferbyn â'i gilydd.
- Enwyd Y Garreg Fawr ar ôl carreg fawr oedd yn rhan o'r ardd gefn!




## Mae Garreg Fawr ar werth!

Mae hon yn weithgaredd wedi'i arwain gan yr athro.

Ysgrifennwch adroddiad am Garreg Fawr i berswadio rhywun i'w brynu! Cofiwch edrych yn ofalus ar y tŷ, gan ddisgrifio'r deunyddiau gwahanol yn yr adeilad, yn ogystal ag unrhyw addurniadau.

**Lleoliad:** ____________________

**Disgrifiad cyffredinol:** (ffenestri, drysau, simnëau) ____________________

____________________

**Ystafelloedd:** (nifer a maint yr ystafelloedd, cyfleusterau e.e. coginio)

____________________

**Nodweddion arbennig:**

____________________

**Gwresogi:** ____________________

**Y tu allan:** (disgrifiwch du blaen a thu ôl i'r ty, gan gynnwys yr ardd)

____________________